

Dod o hyd i fôn y ferf: *Finding the verb stem:*

Bôn y ferf yw'r rhan a ddefnyddir i ychwanegu terfyniadau sy'n dangos yr amser a'r person.
The verb stem is the part used to add endings which will show the tense and the person.

Yn achos y berfau sy'n diweddu â **llafariad**, fel arfer mae'r llafariad olaf yn diflannu:
*In the case of those verbs ending in a **vowel**, usually the last vowel disappears:*

Berf Verb	Bôn Stem	Berf Verb	Bôn Stem
adeiladu	adeilad-	gyrru	gyrr-
canu	can-	saethu	saeth-
cofio	cofi-	trefnu	trefn-
credu	cred-	tynnu	tynn-
gweithio	gweithi-	ysgubo	ysgub-

ond dydy hynny ddim yn digwydd bob tro:
but that doesn't happen every time:

Berf Verb	Bôn Stem	Berf Verb	Bôn Stem
addo	addaw-	gwrandaw	gwrandaw-
chwarae	chwarae-	taro	traw-

Gyda berfau sy'n diweddu â **chytsain**, weithiau mae'r sillaf neu'r llythyren olaf yn diflannu:
*With verbs ending in a **consonant**, sometimes the last syllable or letter disappears:*

Berf Verb	Bôn Stem	Berf Verb	Bôn Stem
cerdded	cerdd-	rhedeg	rhed-
clywed	clyw-	yfed	yf-
gweld	gwel-	ymweld	ymwel-

Yn aml, fodd bynnag, enw'r ferf yw ei bôn hefyd:
Often, however, the verb's name is also its stem:

Berf Verb	Bôn Stem	Berf Verb	Bôn Stem
agor	agor-	eistedd	eistedd-
anfon	anfon-	gwrthod	gwrthod-
ateb	ateb-	siarad	siarad-
cwrdd	cwrdd-	symud	symud-
dangos	dangos-	trafod	trafod-
dewis	dewis-	ymddiried	ymddiried-
digwydd	digwydd-	ymosod	ymosod-

Weithiau ychwanegir **i** i ddod o hyd i'r bôn:
Sometimes the stem is found by adding an i:

Berf Verb	Bôn Stem	Berf Verb	Bôn Stem
arwain	arweini-	disgwyl	disgwyli-
cynnal	cynhali-	meddwl	meddyli-
cynnig	cynigi-	newid	newidi-
derbyn	derbyni-	sôn	soni-

Ac weithiau dyblir 'n':
And sometimes an 'n' is doubled:

Berf Verb	Bôn Stem	Berf Verb	Bôn Stem
cychwyn	cychwynn-	estyn	estynn-
disgyn	disgynn-	gofyn	gofynn-

Er bod problemau yn dod o hyd i fôn y ferf, unwaith bod hynny wedi ei wneud, mae pob berf reolaidd yn cadw'r un bôn ar gyfer y terfyniadau gwahanol yn yr amserau gwahanol.
Although there are problems finding the stem of the verb, once that has been done, every regular verb keeps the same stem for the different endings in the different tenses.

Y Gorffennol: The Past:

Ychwanegu terfyniadau'r gorffennol at fôn y ferf:
Adding past tense endings to the stem of the verb:

Dyma derfyniadau'r gorffennol:
Here are the past tense endings:

-ais i
-aist ti
-odd ef/hi
-on ni
-och chi
-on nhw

A dyma enghreifftiau o ferfau yn y gorffennol:
And here are some examples of verbs in the past tense:

Gweithio	Cerdded	Meddwl
Gweithiais i	Cerddais i	Meddyliais i
Gweithiaist ti	Cerddaist ti	Meddyliaist ti
Gweithiodd ef/hi	Cerddodd ef/hi	Meddyliodd ef/hi
Gweithion ni	Cerddon ni	Meddylion ni
Gweithioch chi	Cerddoch chi	Meddyliocho chi
Gweithion nhw	Cerddon nhw	Meddylion nhw

Defnyddir y terfyniad –**odd** gydag enwau hefyd, gan gynnwys enwau lluosog;
The –odd ending is also used with all nouns, including plural ones:

gweithiodd y ferch; cerddodd y plant; meddylodd yr athrawon;

Berfau afreolaidd:

Irregular verbs:

Mae ychydig o ferfau'n **afreolaidd**, h.y. dyn nhw ddim yn dilyn y patrwm arferol;
*A few verbs are **irregular**, i.e. they don't follow the usual pattern;*

Dyma'r prif rai:

Here are the main ones:

Mynd	Dod	Gwneud
es i	des i	gwnes i
est ti	dest ti	gwnest ti
aeth ef/hi	daeth ef/hi	gwnaeth ef/hi
aethon ni	daethon ni	gwnaethon ni
aethoch chi	daethoch chi	gwnaethoch chi
aethon nhw	daethon nhw	gwnaethon nhw

Cael	Bod
ces i	bues i
cest ti	buest ti
cafodd ef/hi	buodd ef/hi
cawson ni	buon ni
cawsoch chi	buoch chi
cawson nhw	buon nhw

Llunio cwestiynau a'r negyddol:

Forming questions and the negative:

I lunio cwestiwn, mae'r ferf yn treiglo'n feddal:

To form a question, the verb takes soft mutation:

c > g	p > b	t > d	g >	b > f	d > dd	m > f	ll > l	rh > r
-------	-------	-------	-----	-------	--------	-------	--------	--------

Yn y negyddol, mae **c, p, t** yn treiglo'n llaes, ond mae'r llythrennau eraill yn treiglo'n feddal:
In the negative, c, p, and t take aspirate mutation, but the other letters take soft mutation:

c > ch	p > ph	t > th	g >	b > f	d > dd	m > f	ll > l	rh > r
--------	--------	--------	-----	-------	--------	-------	--------	--------

Ddim o:

Ar ôl **ddim**, rhoddir ffurf ar yr arddodiad 'o' o flaen gair **penodol**:

*After **ddim**, a form of the preposition 'o' is placed in front of a **definite** word:*

Phrynais i ddim llyfr
(I didn't buy a book)

Phrynais i **ddim o'r** llyfr
*(I didn't buy **the** book)*

Phrynais i **ddim ohono fe**
*(I didn't buy **it**)*